# Arglwydd, gad im dawel orffwys (Welsh)

*(Grant, O Lord, a peaceful respite)*

John Hughes, 1896-1968

Arwelfa
87.87.D




**Arglwydd, gad im dawel orffwys**
**Dan gysgodau'r palmwydd clyd,**
**Lle yr eistedd pererinion**
**Ar eu ffordd i'r nefol fyd;**
**Lle'r adroddant dy ffyddlondeb**
**Iddynt yn yr anial cras,**
**Nes anghofio'u cyfyngderau**
**Wrth foliannu nerth dy ras.**

**O! mor hoff yw cwmni'r brodyr**
**Sydd â'u hwyneb tua'r wlad,**
**Heb un tafod yn gwenieithio –**
**Heb un fron yn meithrin brad:**
**Gwlith y nefoedd ar eu profiad,**
**Atsain hyder yn eu hiaith;**
**Teimlant hiraeth am eu cartref,**
**Carant sôn am ben eu taith.**

**Arglwydd, dal ni nes mynd adref,**
**Nid yw'r llwybr eto'n faith;**
**Gwened heulwen ar ein henaid,**
**Wrth nesáu at ben y daith;**
**Doed y nefol awel dyner**
**I'n cyfarfod yn y glyn,**
**Nes in deimlo'n traed yn sengi**
**Ar uchelder Seion fryn.**

William Ambrose (Emrys)

www.smallchurchmusic.com

*(I am unable to find any copyright restrictions for the lyrics or music)*